



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Delyth Wyn Molyneux
Pennaeth Dysgu/Head of Learning

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Parc Mownt
Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7EY

15^{fed} Mehefin 2015

ffôn / tel: (01248) 752900 ffacs / fax: (01248) 724264

Gofynnwch am - Please ask for: Jane Marr

ffôn / tel (01248) 752900 ffacs / fax (01248)

E-Bost - E-mail: jaynemarr@anglesey.gov.uk
Ein Cyf - Our Ref.
Eich Cyf - Your Ref.

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Newidiadau i gludiant ysgol

Mae wedi ei gytuno gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 15^{fed} Rhagfyr 2014, i'r Adran Dysgu Gydol Oes fynd ymlaen â newidiadau arfaethedig i gludiant ysgol un pwrpas. O fis Hydref 2015 bydd rhaid i bob disgybl fod â thrwydded bws i deithio ar gludiant ysgol. Bydd hyn yn sicrhau y bydd seddau wedi eu clustnodi ar gyfer pob disgybl a bydd yn gwella iechyd a diogelwch ar y bysiau.

Bydd y canlynol angen trwydded bws o fis Hydref 2015:

- Disgyblion sy'n byw **dros dair milltir** ac sy'n teithio i'r ysgol ddalgylch neu'r ysgol agosaf ac yn derbyn cludiant ysgol di-dâl;
- Disgyblion sy'n byw o **dan dair milltir** ond a oedd yn flaenorol yn talu 20c y daith i deithio ar fws ysgol un pwrpas;
- Disgyblion sy'n **prynu sedd** drwy'r cynllun sedd wag;
- Pob **disgybl 6^{ed} dosbarth** sy'n defnyddio cludiant ysgol un pwrpas.

Dyma'r ffioedd trwyddedau:

	Y flwyddyn
Disgyblion sy'n byw dros dair milltir (yn ôl y polisi)	Di-dâl
Disgyblion sy'n byw'n llai na tair milltir o'r ysgol	£80
Disgyblion sy'n prynu cynllun sedd wag	£150
Disgyblion 6ed dosbarth	£90

Dulliau talu

Bydd amrywiaeth o ddulliau talu'n cael eu cynnig a fydd yn cynnwys y dewis o dalu'r swm cyfan mewn un taliad, y gallu i ymestyn y costau mewn 10 taliad cyfartal drwy ddebyd uniongyrchol neu BACS, taliad drwy siec ac opsiynau eraill. Bydd gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r dulliau talu hyn yn cael eu dosbarthu cyn diwedd tymor yr haf 2015.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r uchod yna teimlwch yn rhydd i gysylltu â'r adran ar 01248 752900 neu drwy e-bost addysg@ynysmon.gov.uk.

Yr eiddoch yn gywir,

J Marr

Jane Marr
Swyddog Addysg